Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ●
Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF
01766 832 398 clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# AGENDA Cyfarfod Arferol

● 7pm – 8 Rhagfyr 2025 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein

---

## Siambr y Cyngor ac Ar-lein

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/89367295533?pwd=ecmCRObjS6YKnWxEb0KevmwUebPDED.1

**Meeting ID: 893 6729 5533**
**Passcode: 678216**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 8 RHAGFYR 2025 AM 7.00PM**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU**

**CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3.** | | **Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. <u>Dalier Sylw:</u> trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw ddiweddariad gan yr Heddlu. |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **6.** | | **Cofnodion**<br>Ystyried y cofnodion canlynol:<br><br>i. Cyngor Arferol – 10 Tachwedd 2025<br>ii. Cynllunio a Rheoleiddio – 17 Tachwedd 2025<br>iii. Pwyllgor Mwynderau – 17 Tachwedd 2025<br>iv. Cyngor Anarferol – 25 Tachwedd 2025 |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | | **Diweddariad ar Brosiectau Llewyrch o'r Llechi Blaenau Ffestiniog**<br>Derbyn diweddariad ar y gwahanol brosiectau sy'n digwydd yn y Blaenau dan y cynllun uchod, copi ynghlwm. |
| **8.** | | **Adroddiad er gwybodaeth gan y Clercod**<br>Ar ôl digwyddiad yn ddiweddar, gwnaed gwaith ymchwil ar y mater a dyma'r canlyniad. Nodir hyn yma er mwyn ei gael ar gofnod at y dyfodol.<br>Yn dilyn symud offer o dir y cyngor yn ddiweddar, mae wedi dod i'r amlwg nad oedd y drafodaeth yn y cyfarfod yn gwahaniaethu'n glir os oedd cymorth y contractwr yn ymwneud ag oriau'r cyngor neu waith preifat. Roedd hyn yn amwysedd yn y drafodaeth, nid y weithred.<br>Er mwyn eglurder yn y dyfodol, bydd unrhyw gais sy'n ymwneud â chontractwyr y cyngor yn cynnwys cadarnhad a yw cymorth i'w ddarparu yn ystod oriau'r cyngor neu'n breifat y tu allan i oriau contract. |
| **9.** | | **Cais am Gymorth Ariannol**<br>**i. Clwb Pêl Droed Ieuenctid**<br>Rydych wedi cael y ffurfleng ais eisoes, yng nghyfarfod 13 Hydref 2025. Ynghlwm mae copi o ddatganiad banc y Clwb, fel y gofynnwyd amdano.<br>**ii. Cyfle i Bawb**<br>Copi o lythyr a thaflen ynghlwm. Mae cynnig i gael cyflwyniad gan swyddog yr Urdd, os yw'r Cyngor yn dymuno hynny. |
| **10.** | | **Rhestr Taliadau**<br>Cymeradwyo rhestr o daliadau wedi/i'w gwneud a derbyniadau yn ystod mis Medi ac Awst 2025, copi ynghlwm. |
| **11.** | | **Garreg Lwyd, Llan Ffestiniog – Cais i Newid Defnydd**<br>Ystyried gohebiaeth gan asiant yr ymgeisydd yn y cais uchod i newid defnyddio, rhwng yr asiant, y Clerc a'r Cynghorydd Geraint Parry. |

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | | **Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus**<br>Ystyried yr ohebiaeth sydd ynghlwm, a chymryd penderfyniad ar yr wybodaeth. |
| **13.** | | **Adroddiadau gan Gynghorwyr**<br>Cyfle i’r cynghorwyr adrodd yn ôl ar unrhyw gyfarfodydd ac ati a fynychwyd ganddynt yn ystod y mis diwethaf. |

Sioned Graham-Cameron
Clerc
DYDDIAD: 3ydd o Ragfyr 2025